OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1885 (Cy.194)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

PYSGOD CREGYN

Rheoliadau Pysgod Cregyn (Dynodi Cramenogion) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*18 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym - -	*5 Awst 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 1(1) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967(**1**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn hynny o beth, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pysgod Cregyn (Dynodi Cramenogion) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 5 Awst 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru ac i'r môr gerllaw Cymru hyd at ffin forol y môr tiriogaethol.

Dynodi cramenogion

2. Pennir drwy hyn grancod at ddibenion adran 1(1) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967.

(**1**) 1967 p.38; gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 1(1) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p. 77) adran 15(2), gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd Môr 1976 (p. 86) Atodlen 2, paragraff 15, gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) (Diwygio) 1997 (p.3) adran 1, a chan Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Newidiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820) Atodlen 2, paragraff 42(2). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r "Gweinidog priodol" mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), Erthygl 2 ac Atodlen 1.